



Pos cartref

Mae'r gweithgaredd hwn yn 'ddau mewn un' fydd yn caniatáu i'ch plentyn gael hwyl gyda phaent ac yna bydd yn cael ei ddefnyddio i'w hannog i ddatrys problem.

Byddwch angen:

- Darn o bapur neu gerdyn
- Paent a brwshys paent/pinnau lliwio
- Siswrn

Dull:

- Gofynnwch i'ch plentyn baentio neu dynnu llun ar y papur/cerdyn
- Unwaith y bydd y paent wedi sychu torrwch y llun yn ddarnau pos

DYSGU DRWY CHWARAE - Pos cartref

- Gallwch ddefnyddio troeon a llinellau syth neu geisio ei dorri i siapiau arddull 'jig-so'
- Yna gall eich plentyn geisio rhoi'r darn yn ôl at ei gilydd eto

Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd yn eu hannog i ddatrys problemau
- Mae ymuno i mewn gyda'ch plentyn yn chwarae yn eu helpu i ddatblygu eu hyder



RHYBUDD:
Mae angen goruchwyliaeth ofalus wrth ddefnyddio siswrn!

